**WGC 009 2018 – Gwybodaeth bellach** **Medi 2018**

## Cyngor ar brofi a chategoreiddio Setiau Drysau Tân

**Mae'r cyngor hwn yn nodi sut y dylid profi a chategoreiddio setiau drysau tân. Mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer Gweithgynhyrchwyr, Cyrff Rheoli Adeiladau, labordai profi a chyrff ardystio.**

## Cyflwyniad a chyngor blaenorol

1. Mae'r ymchwiliad sydd ar waith gan Lywodraeth y DU wedi datgelu rhagor o ddiffygion posibl o ran drysau tân cyfansawdd o fewn y diwydiant.

2. Ar 7 Awst 2018, ysgrifennodd Gweinidogion Cymru at Gyrff Rheoli Adeiladau yn eu rhybuddio bod angen iddynt wirio perfformiad setiau drysau tân er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. Mae'r cylchlythyr i'w weld yma:

   https://gov.wales/docs/desh/publications/180807building-regulations-circular-009-2018-cy.pdf

3. Rydym yn cymryd camau i egluro'r cylchlythyr hwn yn sgil y materion systemig y mae Llywodraeth y DU wedi'u nodi hyd yma yn niwydiant y drysau cyfansawdd yn unig. Mae'r cyngor hwn, felly, yn rhoi rhagor o fanylion i Gyrff Rheoli Adeiladau, labordai profi a chyflenwyr ar y pwysigrwydd o brofi drysau cyfansawdd ar y ddwy ochr ac yn cadarnhau bod yr wybodaeth hon yn berthnasol i ddrysau cyfansawdd yn unig.

4. Mae Llywodraeth y DU yn dal i ymchwilio i'r farchnad drysau tân ehangach a bydd unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r ymchwiliadau hynny yn cael eu cymryd fel y bo'n briodol.

## Gwerthuso setiau drysau a sicrhau perfformiad

Canllawiau presennol

5. Bydd Setiau Drysau Tân sydd ar werth ar hyn o bryd yn y DU wedi'u profi yn unol â'r safon BS 476-22 neu EN1634-1. Mae'r ddwy safon hyn yn cydnabod y posibilrwydd nad oes angen cynnal profion ar ddwy ochr y drws bob amser. Mae Cymal 13.4 o EN 1634-1 yn nodi adegau pan fydd yn briodol profi un ochr yn unig. Yn Atodiad C o'r canllawiau, nodir sail resymegol sydd wrth wraidd y rheolau hyn ac nid yw'n cynnwys drysau cyfansawdd yn benodol gan ddweud:

   **“Nid yw setiau drysau a wneir o ddeunyddiau eraill[1] neu ddeunyddiau cyfansawdd wedi'u cynnwys yn benodol yn yr atodiad hwn gan nad oes digon o dystiolaeth am eu perfformiad mewn tân i roi canllawiau ar yr ochr wanaf yn erbyn tân".**

[1] Nid pren na metel

6. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod Cymal 13.4 o EN 1634-1 yn cynnwys y cyngor gorau sydd ar gael ar y mater hwn a dylid ei ddilyn hyd yn oed os yw set y drws yn cael ei gategoreiddio yn BS 476-22 neu EN 1634-1.

**<u>Camau i'w cymryd</u>**

Rydym yn argymell yn gryf y dylid cymryd y camau a ganlyn i gadarnhau bod y profion priodol wedi'u cynnal ar ddrysau cyfansawdd:

7. **Dylunwyr a phenwyr** – Dylent ofyn am sicrwydd a thystiolaeth oddi wrth eu cyflenwyr bod y cynhyrchion a bennir yn bodloni'r safonau priodol.

8. **Cyrff Rheoli Adeiladau** – Dylent fodloni eu hunain bod y cynhyrchion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer prosiect dan eu goruchwyliaeth hwy yn bodloni'r safonau priodol. Pan fo amheuaeth, neu pan fo setiau drysau tân yn arbennig o bwysig, dylent ofyn am gael darllen adroddiadau'r profion a pheidio â dibynnu o reidrwydd ar ddogfennau'r gweithgynhyrchwr.

9. **Y labordai profi a'r Cynlluniau Ardystio** – Dylent ystyried y cyngor hwn a sicrhau bod eu dogfennau yn dangos natur y prawf a gynhaliwyd er mwyn cyfiawnhau'r categori a bennwyd a methodoleg y prawf.

**YMHOLIADAU**

Dylid anfon pob ymholiad sy'n ymwneud â'r materion a nodir yn y Cylchlythyr hwn i:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Llawr 1af, y Gogledd
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 03000 628144
E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Yn gywir



**Francois Samuel**
**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Llywodraeth Cymru**